



ffeithiau

Rheoli Safleoedd Rhandiroedd Pecyn Cymorth: Garddwyr wrth y llyw

Rhagarweiniad

Mae Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gynhyrchu pecyn o adnoddau i helpu sicrhau fod awdurdodau lleol ac eraill sy'n gysylltiedig â rheoli safleoedd rhandiroedd yng Nghymru yn manteisio i'r eithaf ar botensial y safleoedd ar gyfer y boblogaeth leol.

Gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, mae FfaGC Cymru wedi llunio dogfen cyfarwyddyd ar gyfer awdurdodau lleol, tyfwyr a grwpiau tyfu yng Nghymru sy'n cynnwys trosolwg o ran rheoli safleoedd rhandiroedd.

Mae'r daflen ffeithiau hon yn un o gyfres sy'n rhoi mwy o fanylion ar y pynciau amrywiol sy'n rhan o'r Cyfarwyddyd.

Yn ogystal mae'r pecyn cymorth yn cynnwys amrediad o ddogfennau tenantiaeth enghreifftiol a thempledi dogfennau cyfreithiol eraill i gynorthwyo gyda rheoli safle.

Gellir lawrlwytho'r holl adnoddau hyn o:

www.farmgarden.org.uk/allotment-site-management-toolkit



Garddwyr wrth y llyw - Canllawiau i gymdeithasau rhandiroedd ar reolaeth ddatganoledig

Yr enw ar arfer o ddatganoli rhan o'r cyfrifoldeb am reoli safleoedd rhandiroedd i arddwyr y rhandiroedd eu hunain yw rheolaeth ddatganoledig. Fel arfer maent yn cael eu trefnu fel cymdeithas gyfansoddedig gyda phwyllgor etholedig.

Mae cymdeithasau rhandiroedd yn dewis y dull rheoli hwn am nifer o resymau. Mae rhai mewn sefyllfa lle bydd rheolaeth ddatganoledig yn gam nesaf synhwyrol, hwyrach y bydd rhai'n cael eu gorfodi i ddilyn y llwybr yma oherwydd diffyg diddordeb neu fuddsoddiad gan yr awdurdod lleol neu bwy bynnag sy'n gyfrifol am y safle.

Beth bynnag fo'ch sefyllfa, dylid defnyddio dull rheolaeth ddatganoledig sy'n addas i'r gymdeithas a'r landlord.

Manteision ac anfanteision

Yn sicr bydd teimlad o foddhad eich bod 'wedi ei wneud eich hunan' yn gwella hwyliau ar y safle, ond mae manteision eraill hefyd, megis:

- Gallu hybu lleiniau sy'n rhydd mewn ffordd fwy effeithiol, a bydd y gwaith cynnal a chadw'n digwydd yn gyflymach pan fydd yn cael ei gyflawni gan bobl sy'n gofalu am y safle.
- Yn aml bydd cymdeithasau mewn gwell sefyllfa nag awdurdodau lleol i godi arian, a thrwy gadw'r rhent, gellir sicrhau fod arian deiliaid y lleiniau'n cael ei ail-fuddsoddi mewn gwasanaethau.
- Mae cylchoedd o ddirywiad a thanddefnyddio'n gallu cael eu gwyrddroi, sy'n golygu bod gan ddeiliaid lleiniau a chefnogwyr lleol ased i ymfalchio ynddo.

Fodd bynnag, os derbynnir cyfrifoldeb rheolaeth ddatganoledig ar yr amser anghywir, ar y cyflymder anghywir neu gydag ychydig iawn o gefnogaeth, gall arwain ar broblemau difrifol: ni fydd deiliaid lleiniau'n dod i gyfarfodydd; nid oes gan unrhyw un amser i archwilio'r lleiniau; bydd lleiniau'n mynd yn segur ac yn amhosib eu gosod; a bydd unigolyn yn ceisio ymdopi â'r holl waith sydd ei angen i redeg y safle, ac o dan bwysau enfawr.

Mae rheolaeth ddatganoledig lwyddiannus yn golygu gwneud y gorau o'r manteision a lleihau cymaint â phosib yr anfanteision.

Cael trefn ar bethau

Mae angen strwythur cyfreithiol cadarn i gefnogi rheolaeth ddatganoledig. Mae'r rhan fwyaf o rhandiroedd yn dewis dod yn Gymdeithas Anghorfforedig gyda chyfansoddiad ffurfiol a phwyllgor etholedig, Cadeirydd, Trysorydd ac Ysgrifennydd.

Mae llawer o gymdeithasau'n penodi swyddogion ychwanegol i ddelio gyda thasgau penodol megis hyrwyddo neu waith cynnal a chadw. Mae'n well i'r pwyllgor cwrdd yn aml a thrafod ychydig i sicrhau cynnydd graddol ac er mwyn atal cyfarfodydd hir sy'n digalonni'r gwirfoddolwyr.

Fel rheol gyffredinol iawn, mae angen rhyw 6 - 8 o unigolion ymroddedig ar safle i sicrhau bod rheolaeth ddatganoledig yn llwyddo. Ni ddylai un neu ddau o'r unigolion ysgwyddo'r baich i gyd. Ni ddylai'r swyddogion newid yn aml, sy'n golygu nad oes llawer o drefn ar y dulliau rheoli, nac aros yn y swydd rhy hir fel bo deinameg y grŵp yn marweiddio.

Prydles addas

Wrth gytuno trefniadau newydd sy'n delio gyda materion pwysig, mae'n hanfodol cael cytundeb ysgrifenedig ffurfiol. Y 'brydles' neu'r 'cytundeb' yw hwn, ac nid yw'n gyfreithiol

rwymol nes cael ei lofnodi gan y ddau barti. Y partion yw pwy bynnag sy'n gyfrifol yn y pen draw am y safle (yr awdurdod rhandiroedd) a'r gymdeithas.

Nid yw dau safle rhandiroedd yr un peth, ac yn yr un ffordd, ni ddylai prydles rheolaeth ddatganoledig fod yn becyn 'sy'n addas i bawb'. Dylid addasu'r brydles i'r safle a chapasiti'r gymdeithas a dylai hefyd ystyried cyflwr y safle ar y pryd. Wrth gwrs, bydd yn dibynnu ar yr hyn sy'n addas i'r awdurdod rhandiroedd a'r potensial i gyfaddawdu.

Fel arfer, yr awdurdod rhandiroedd fydd yn paratoi'r brydles, ond nid yw hyn yn golygu na allwch geisio trafod y telerau. Os nad yw'r brydles a gynigir ichi'n addas i anghenion eich cymdeithas, dylech anfon hysbysiad ysgrifenedig at yr awdurdod yn nodi hyn, a dechrau trafodaethau gyda'r awdurdod rhandiroedd o safbwynt yr hyn fyddai'n addas.

Byddwch yn barod i weithio'n galed gyda (nid yn erbyn!) yr awdurdod rhandiroedd wrth drafod i gael y cytundeb gorau posib.

Ni fydd gelyniaethu'r gymdeithas o'r awdurdod rhandiroedd yn fuddiol i unrhyw un – bydd angen cynnal cysylltiad cytbwys ar ôl lofnodi'r brydles, a hwyrach y bydd angen yr awdurdod rhandiroedd i gyfryngu os bydd problemau'n codi yn y dyfodol, megis anghydfod rhwng deiliaid lleiniau.

Dylid pennu nodau hirdymor a chytuno ymlaen llaw lle byddwch yn barod i gyfaddawdu. Os ydych yn cael eich gorfodi i ddilyn trywydd rheolaeth ddatganoledig, hwyrach na fydd gennych lawer o le i drafod, ond bydd o gymorth gwybod beth yw eich nodau hirdymor, a sicrhau fod yr awdurdod rhandiroedd yn ymwybodol ohonynt o'r cychwyn cyntaf.

Dylid osgoi cael eich gorfodi i wneud penderfyniadau ar frys. Gall prydles sy'n cael ei thrafod yn brydlon atal problemau nes ymlaen i'r ddwy ochr.

Dylid defnyddio iaith glir a syml i lunio'r cytundeb. Os nad ydych yn deall unrhyw dermau cyfreithiol, gallwch ofyn am ei ail-lunio mewn iaith symlach. Ni ddylid ei lofnodi os nad ydych yn ei ddeall. Dylai'r ddwy ochr gadw copi o'r cytundeb.

Gofalwch eich bod yn cael cyngor cyfreithiol annibynnol. Mae aelodau'r Gymdeithas Rhandiroedd Genedlaethol yn cael cyngor cyfreithiol am ddim (gweler Adnoddau). Bydd rhai cyfreithwyr yn gweithio am ddim ar sail pro bono.

Hyd y brydles

Mae rhai awdurdodau rhandiroedd yn gyndyn i gytuno prydlesi hirdymor, ond gall prydlesi tymor byr gyfyngu cymdeithasau o safbwynt cynlluniau hirdymor a cheisio am grantiau. Mae awdurdod lleol yn gallu cael gwared ar dir am bris "llai na'r gorau" (incwm) os bydd y weithred yn cyfrannu at hyrwyddo neu wella llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol ei ardal ac mor bell nad yw'r isel bris dros £2 filiwn. Mae'r pŵer yma'n deillio o'r Caniatâd Gwaredu Cyffredinol. Mae trafod prydles hirach yn bosib, ac yn werth yr ymdrech wrth ystyried y buddion sydd ar gael o ganlyniad. Mae Sefydliad Brenhinol y Syrffewyr Siartredig wedi llunio cyfarwyddyd o ran arfer orau (gweler Adnoddau) sydd yn fan cychwyn defnyddiol o safbwynt trafodaethau.

Ffederasiynau

I gymdeithasau unigol gyda'r un awdurdod rhandiroedd, mae wedi bod yn ddefnyddiol iddynt gyfuno a chydweithio, fel 'ffederasiwn' neu 'fforwm'. Gall ffederasiynau drafod telerau prydlesi a phroblemau o ran rhandiroedd ar hyd a lled y fwrdeistref gyda'r awdurdod rhandiroedd. Yn aml bydd gan ffederasiynau fwy o 'ddylanwad' na chymdeithasau unigol sy'n gweithio wrth eu hunain.

Penderfynu ar y man cychwyn cywir

Hyd yn oed gydag ewyllys da, nid yw'n bosibl i gymdeithas 'redeg cyn y gallwch gerdded'. Gweler dros y dudalen am siart sy'n nodi camau'r broses reoli ddatganoledig a fydd yn helpu cymdeithas i benderfynu ar y man cychwyn cywir, hy y pwynt sy'n iawn iddynt weithio'n effeithiol ac yn hyderus. Efallai bod rhai ohonoch eisoes wedi cyrraedd un cam, ac yn ystyried symud i'r nesaf.

Sefydlu'n raddol

Dylech geisio dewis cam gyda llai o gyfrifoldebau ar gyfer cyfnod treial 'sefydlu' cyn symud at drefn fwy datblygedig nes ymlaen.

I lawer o gymdeithasau, mae'n ddefnyddiol trafod symud yn raddol rhwng un cam a'r nesaf dros gyfnod o ryw dwy neu dair blynedd, wrth fagu profiad a hyder.

Cyfrinachau llwyddiant hirdymor

Mae'r tair elfen sy'n sicrhau bod rheolaeth ddatganoledig yn llwyddo fel a ganlyn:

- ymrwymiad
- capasiti
- atebolrwydd.

Dylid ystyried pob un o'r rhain yn ystod pob cam o'r broses rheolaeth ddatganoledig er mwyn osgoi peryglon.

Ymrwymiad

Ni fydd rheolaeth ddatganoledig yn llwyddo oni fydd ymrwymiad cyson gan y gymdeithas, deiliaid lleiniau unigol a'r awdurdod rhandiroedd.

Mae angen i bawb fod yn bartner mewn cytundeb clir a hollol gytbwys. Mae angen cadarnhad ar yr awdurdod rhandiroedd y bydd eich cymdeithas (a'r deiliaid

lleiniau unigol) yn ymrwymedig, yn ddibynadwy a chyfrifol, hyd yn oed pan fydd aelodau'n newid. Felly hefyd, mae angen ymrwymiad cyson ar eich cymdeithas gan landlord y safle, hyd yn oed pan fydd staff, polisïau a gwleidyddiaeth yn newid.

Mae'n bwysig sylweddoli o'r cychwyn cyntaf nad yw rheolaeth ddatganoledig yn debygol o weithio os bydd lleiafrif sylweddol o ddeiliaid lleiniau yn ei erbyn. Os oes gennych 30 neu 300 o leiniau, mae angen i bawb fod yn gytûn o safbwynt lefel eu hymrwymiad i'r fenter cyn cychwyn.

I rai pobl, mae hyn yn golygu ymrwymo i chwarae rhan weithgar o ran rhedeg y safle. I eraill, sydd â diddordeb yn eu llain yn unig, mae ymrwymiad yn cyfateb i ddioddef ymdrechion eraill mewn ffordd gefnogol. Ac mae ymrwymiad yn golygu sicrhau pan fydd brwdfrydedd yn brin, bod dwylo newydd ar gael i ysgwyddo'r baich.

Capasiti

Mae angen gallu delio gyda thasgau a phroblemau sy'n codi wrth reoli eich safle. Bydd mesurau syml, ymarferol yn golygu eich bod yn gyfarwydd gyda chapasiti eich cymdeithas, a lle mae angen hyfforddiant i lenwi unrhyw fylchau.

Dylid trefnu cyfarfod o'r pwyllgor ac unrhyw ddeiliaid lleiniau eraill sydd wedi mynegi diddordeb mewn cyfrannu at reolaeth ddatganoledig.

Byddwch yn ofalus wrth ddewis lleoliad ar gyfer cyfarfodydd e.e. hwyrach na fydd tafarn neu glwb cymdeithasol yn dderbyniol i bobl nad ydynt yn dod o gefndir diwylliant yfed alcohol. Yn aml gall grwpiau gwirfoddol hurio ystafelloedd cyfarfod mewn canolfannau cymunedol, llyfrgelloedd a neuadd y dref am ddim, a hwyrach y bydd crèche a mynediad i'r anabl hefyd.

Cymerwch gip ar y rhestr o **Gyfrifoldebau Rheolwyr** (tud 4), a gofyn i'ch hunan "ydy'r capasiti gennym i wneud hyn?"

Camau Rheolaeth Ddatganoledig

Dibyniaeth

- Nid yw deiliaid y lleiniau a'r gymdeithas (os oes un) yn chwarae unrhyw ran ymarferol wrth reoli'r safle.
- Hwyrach y bydd cynrychiolydd ar ran y safle sydd yn bwynt cyswllt anffurfiol rhwng deiliaid y lleiniau a'r awdurdod rhandiroedd.
- Does dim cytundeb rheolaeth ddatganoledig ysgrifenedig rhwng deiliaid y lleiniau a'r awdurdod rhandiroedd.

Cyfrannu

- Mae cynrychiolydd ar ran y safle ac mae deiliaid lleiniau'n derbyn cyfrifoldeb am fân waith cynnal a chadw ar lefel anffurfiol.
- Hwyrach y bydd modd ymgynghori â deiliaid y lleiniau neu gynrychiolwyr y safle ar wariant cyfalaf ac atgyweiriadau gan yr awdurdod rhandiroedd.
- Does dim cytundeb rheolaeth ddatganoledig ysgrifenedig rhwng deiliaid y lleiniau a'r awdurdod rhandiroedd.

Dirprwyo

- Mae'r gymdeithas yn derbyn cyfrifoldeb ffurfiol am ddyletswyddau amrywiol a all cynnwys trefnu tenantiaethau a chyflawni dyletswyddau cynnal a chadw rheolaidd.
- Mae trefniadau ariannol yn rhyddhau cyfran o'r incwm rhent at y diben hwn, ond mae'r awdurdod lleol yn gwneud y gwaith atgyweirio, yn talu am orbenion megis dŵr, ac yn gyfrifol am agweddau cyfreithiol ffurfiol.
- Mae cytundeb rheolaeth ddatganoledig ysgrifenedig neu drwydded yn bodoli rhwng y gymdeithas a'r awdurdod rhandiroedd.

Hanner Ymreoli

- Mae'r gymdeithas rhandiroedd yn prydlesu'r safle gan y cyngor, yn cytuno trefniadau tenantiaeth, yn casglu rhent ac yn ail-fuddsoddi'r refeniw (sydd o dan ei reolaeth) ar waith cynnal a chadw, atgyweiriadau ac eitemau cyfalaf.
- Yn dibynnu ar delerau'r brydles, gall deiliaid lleiniau fod yn denantiaid y gymdeithas yn hytrach na'r awdurdod lleol. Yr awdurdod lleol sy'n cadw swyddogaethau trosolwg a strategol diffiniedig.
- Mae cytundeb rheolaeth ddatganoledig ysgrifenedig yn bodoli rhwng y gymdeithas a'r awdurdod rhandiroedd.

Ymreoli

- Mae'r gymdeithas rhandiroedd yn prynu'r tir ac yn gweithredu mewn ffordd annibynnol.
- Hwyrach y bydd y gymdeithas yn newid ei statws cyfreithiol, e.e. i gwmni cyfyngedig trwy warant.
- Does dim cytundeb rheolaeth ddatganoledig ffurfiol oherwydd mae'r gymdeithas yn gweithio wrth ei hunan.

Hwyrach y bydd pobl yn y cyfarfod yn cwestiynu a oes gan eraill y capasiti a nodwyd – bydd angen trafod pwy sy'n gwneud beth, gyda phawb yn cytuno i chwarae eu rhan heb orfod poeni am yr hyn mae pobl eraill yn ei wneud.

Trwy'r trafodaethau hyn a thrwy ddyrannu tasgau, byddwch yn sylweddoli pa gam ar y llwybr rheolaeth ddatganoledig rydych yn gallu ac yn barod i'w dderbyn - ac adnabod meysydd lle mae angen hyfforddiant neu gefnogaeth ychwanegol efallai.

Mewn rhai meysydd lle mae diffyg capasiti, hwyrach y byddwch yn gallu cael hyd i hyfforddiant, cyhoeddiad neu rywun sy'n fodlon rhoi cyngor i lenwi'r bwlch dan sylw. Gallwch hysbysu'r awdurdod rhandiroedd o anghenion hyfforddi'r gymdeithas, er nad oes unrhyw gyfrifoldeb arnynt i ddarparu hyfforddiant.

Hwyrach y bydd hyfforddiant cyffredinol megis sgiliau cadw'r llyfrau neu gymryd cofnodion cyfarfodydd, ar gael am ddim gan eich awdurdod lleol neu'r Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Lleol (gweler Adnoddau). Hwyrach y bydd angen hyfforddiant technegol penodol, megis cwrs ar dirweddu caled a meddal, neu reoli chwyn, gan goleg garddwriaeth lleol.

Mae rhai cymdeithasau'n hapusach i ddysgu trwy brofiad, yn lle dibynnu ar hyfforddiant gan sefydliadau allanol. Mae ymweliadau i a gan safleoedd eraill sy'n arfer rheolaeth ddatganoledig o ran cyngor a dysgu 'trwy'r gwaith' yr un mor ddefnyddiol ag unrhyw gwrs hyfforddi.

Yn aml, bydd gan gymdeithasau gronfa o bobl fedrus a galluog ymhlith deiliaid eu lleiniau. Gall unrhyw un sy'n gallu rheoli arian mewn ffordd drefnus ac onest fod yn drysorydd ar ôl mynychu cwrs hyfforddi undydd ar gadw'r llyfrau neu ar ôl darllen y canllawiau perthnasol.

Yn hollol annisgwyl, bydd llawer o ddeiliaid lleiniau'n darganfod fod ganddynt sgiliau trwy swyddi

Cyfrifoldebau Rheoli - Oes gan eich cymdeithas y capasiti i ddelio gyda'r rhain?

- Oes hawl i godi ffi aelodaeth yn y cytundeb rheolaeth ddatganoledig? Os felly, sut gallwn weinyddu hyn?
- Sut mae mynd ati i lunio polisiau, e.e. cyfleoedd cyfartal?
- Pwy sy'n rhoi caniatâd ar gyfer strwythurau newydd?
- Pwy sy'n gyfrifol am yswiriant?
- Pwy sy'n cyhoeddi hysbysiadau o ran diffyg cydymffurfiaeth i ddeiliaid lleiniau? Pwy sy'n penderfynu a fodlonwyd telerau'r hysbysiad?
- Pwy sy'n gallu/trefnu cynnal a chadw cyfleustodau? Pwy sy'n talu/trefnu gwelliannau i gyfleustodau?
- Sut gallwn benderfynu ar rent lleiniau a gostyngiadau?
- Pa ostyngiadau sy'n bodoli eisoes? Pwy sy'n gyfrifol am eu diffinio?
- Faint o rybudd sydd ei angen ar gyfer y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol? Sut dylwn ei hysbysebu?
- Beth yw'r nifer isaf o aelodau sy'n gallu pleidleisio er mwyn gwneud penderfyniadau ar ran y gymdeithas ar gyfer cyfarfodydd cyffredinol a chyfarfodydd pwyllgor? (Sef y cworwm).

neu brofiadau bywyd y gellir eu trosglwyddo i anghenion y gymdeithas - a thrwy hynny rhoi hwb i'w hyder nhw a hyder y gymdeithas ac arbed arian.

Atebolrwydd

Mae'n hanfodol bod yn ddemocrataidd a thryloyw o ran holl agweddau ar reoli'r safle, er mwyn cadw cefnogaeth deiliaid y lleiniau, yr awdurdod rhandiroedd a chefnogwyr lleol.

Mae angen arfer democratiaeth i sicrhau bod pobl yn teithio gyda chi, yn lle eu gelyniaethu. Trwy fod yn dryloyw, byddwch yn dangos fod popeth yn deg. Heb ddemocratiaeth a thryloywder, mae risg na fyddwch efallai'n ymwybodol o broblemau. Hefyd mae'n bwysig peidio bod yn rhy eiddgar wrth arfer eich grym: Nid yw unrhyw un yn hoffi unben.

Cyfathrebu yw'r allwedd i sicrhau fod eich holl ymdrechion yn hygyrch ac yn dryloyw i bawb. Dylid anelu at gyfleu gwybodaeth bwysig yn rheolaidd ac mewn ffordd syml, megis dyddiadau cyfarfodydd, cofnodion a'r cyfrifon.

Mae rhai safleoedd yn cynhyrchu cylchlythyr manwl bob chwarter, a gellir e-bostio hwn a'i arddangos ar hysbysfyrddau ar y safle. Trwy arddangos copi tu allan i'r ffens o gwmpas y safle, byddwch hefyd yn diweddarar cefnogwyr lleol. A chofiwch anfon copi at y landlord yn ogystal.

Os byddwch yn hepgor hysbysu pobl am yr hyn sy'n digwydd, hwyrach y byddan nhw'n digalonni, neu'n waeth, yn amheus: gall brwdfrydedd pylu, a gwrthwynebiad gynyddu.

Cynlluniau busnes a strategaethau

Mae'n syniad da i lunio cynllun busnes neu strategaeth ar ôl ystyried eich capasiti - cynllun gweithredu o'r hyn y mae angen ei wneud, pam, pryd a gan bwy. Nid oes rhaid i'r cynllun fod yn rhy hir, bydd cwpl o dudalennau sy'n cael ei adolygu o dro i dro gan y gymdeithas yn golygu fod pethau'n llai o faich, a gall atal problemau rhag codi yn y dyfodol.

Cwmpas y safle

Gall fod yn ddefnyddiol i gynnal ymarfer 'cwmpasu' (gweler yr enghraifft yn y blwch ar dudalen 6):sef cerdded o gwmpas y safle, asesu ei fanteision ac anfanteision, ac ystyried y goblygiadau hirdymor ac ariannol.

Bydd canlyniadau ymarfer cwmpasu'n helpu dangos a fyddwch yn gallu derbyn cyfrifoldeb llawn ar gyfer holl seilwaith y safle, neu os oes angen trafod eithriadau gyda'r awdurdod rhandiroedd (a pha gam o'r broses rheolaeth ddatganoledig sydd mwyaf priodol i'ch safle).

Cyllid

Cyn ymrwymo i reolaeth ddatganoledig, dylid gweithio allan incwm a gwariant (costau) y safle dros flwyddyn ariannol.

Bydd eich gwariant yn cynnwys rhent i'r awdurdod rhandiroedd; y bil ddŵr; yswiriant; gwaith cynnal a chadw cyffredinol (e.e. sgipiau neu atgyweirio ffens); costau gweinyddol. Ar gyfer y rhan fwyaf o gymdeithasau, yr unig incwm fydd rhent a delir gan ddeiliaid lleiniau.

Os byddwch yn darganfod fod eich incwm o'r rhent yn talu'r costau gwariant yn unig, dylid ystyried cynyddu'r rhent neu gyflwyno ffi am ddŵr ar wahân. Yn ddefnyddiol, dylech greu arian ychwanegol i dalu costau annisgwyl (e.e. os bydd peipen yn gollwng).

Os oes angen gwneud gwelliannau i seilwaith y safle nad yw'r awdurdod rhandiroedd yn gallu talu amdanynt, bydd angen ichi godi arian. Mae rhoddion gan ddeiliaid lleiniau, caban i werthu cynnyrch, digwyddiadau a gwerthu cynnyrch sydd dros ben i gyd yn wych i greu incwm ychwanegol.

Rhent rhad

Bydd y rhan fwyaf o awdurdodau rhandiroedd yn codi rhent ar sail Cyfanswm Ardal – sy'n golygu eich bod yn talu bil a seilir ar faint o dir (fesul hectar) sydd ar eich safle, ac nid ar nifer y lleiniau. Os nad oes deiliaid

Enghraifft o ymarfer cwmpasu

Nodwedd	Cyflwr	Camau gweithredu
Y prif lwybrau halio a'r ffens derfyn	Da	Parhau i adolygu
Cyflenwad dŵr	2 dap yn gollwng	Gofyn i'r awdurdod rhandiroedd atgyweirio cyn cychwyn y brydles. Fel arall, talu o'r refeniw rhent.
	Difrodwyd 1 tap wrth i gerbyd facio nôl	Cyhoeddi hysbysiad i bob deiliad lleiniau i yrru'n fwy gofalus. Anfon bil at y deiliad sy'n gyfrifol os gwyddys pwy yw. Creu ffiniau ar y llwybrau i atal hyn rhag digwydd eto, os bydd y broblem yn parhau.
Lleiniau heb denantiaid	Wedi gordyfu	Rhoi gorchudd o bolythen du drostynt, cynnig y lleiniau hyn i ddeiliaid lleiniau newydd, sy'n cynnwys ffi i dalu am y polythen.

ar 100% o leiniau'r gymdeithas a/neu os bydd yn codi rhent â gostyngiad i rai, hwyrach y bydd prinder o safbwynt y rhent, ond bydd gofyn ichi dalu'r rhent ar gyfer yr holl dir sydd ar y safle.

Mae rhai cymdeithasau wedi trafod prydles 'rhent rhad' sy'n golygu nad ydynt yn talu rhent i'r awdurdod rhandiroedd ac maent yn cymryd cyfrifoldeb am y safle yn lle hynny.

Agweddau cyfreithiol a thechnegol: Y Gyfraith

Mae Deddf Tyddynnod a Rhandiroedd (1908) Adran 29 (1) yn caniatáu rheolaeth ddatganoledig; fodd bynnag, nid oes rhwymedigaeth gyfreithiol ar yr awdurdod rhandiroedd i ystyried cymeradwyo rheolaeth ddatganoledig na chymryd yn ôl safle datganoledig os bydd problemau'n codi, oni nodir hyn yn benodol yn y cytundeb. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau rhandiroedd yn awyddus iawn i annog rheolaeth ddatganoledig ac mae llawer yn fodlon ymrwymo i bartneriaeth sy'n fuddiol i'r naill ochr a'r llall er mwyn trafod cytundeb sy'n addas i'r ddau barti.

Ar ôl llofnodi prydles, bydd y Gymdeithas (neu'r Ymddiriedolwyr a benodir gan y Gymdeithas) yn ysgwyddo'r atebolrwydd cyfreithiol a

nodir neu a awgrymir yn y cytundeb. Mae'r rhan fwyaf o brydlesi'n pennu fod unrhyw atebolrwydd yn gyfrifoldeb y gymdeithas. Mae goblygiadau pwysig ynghlwm wrth atebolrwydd, a dylai cymdeithasau sicrhau fod ganddynt yswiriant digonol.

Risg, atebolrwydd ac yswiriant

Heb yswiriant atebolrwydd cyhoeddus, bydd cymdeithas a'i aelodau unigol yn atebol am unrhyw hawliau yn ei herbryn ar ôl llofnodi prydles rheolaeth ddatganoledig. Mae'n hanfodol cael yswiriant digonol, ac y daw i rym ar unwaith ar ôl llofnodi'r brydles rheolaeth ddatganoledig.

Hefyd dylai cymdeithasau sy'n cyflogi rhywun (sy'n wahanol i wirfoddolwyr) drefnu Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwr. Cysylltwch â FfaGC neu CRhC am fanylion eu cynlluniau yswiriant (gweler **Adnoddau**).

Mae elfen o risg ynghlwm wrth unrhyw weithgaredd, ac nid yw garddio ar randir yn eithriad i hyn. Mae'n bwysig cynnal asesiad risg o'r safle.

Dim ond gweithwyr proffesiynol hyfforddedig ddylai cyflawni rhai tasgau (e.e. cwmpo coed, chwistrellu chwynladdwr). Os bydd deiliaid lleiniau'n defnyddio offer y gymdeithas, mae'n rhaid cyflwyno hyfforddiant priodol.

Strategaethau achub

Gall hyd yn oed y cynlluniau mwyaf trylwyr chwalu weithiau – mae angen gofalu y gallwch ymdopi dan bwysau. Cytundeb cyfreithiol yw prydles rheolaeth ddatganoledig, felly trwy ysgwyddo cyfrifoldeb, mae'n rhaid ichi allu lliniaru risg a delio gydag unrhyw beryglon sy'n digwydd.

Trwy adolygu eich lefelau ymrwymiad, capasiti a threfniadau atebolrwydd yn rheolaidd, gallwch helpu atal problemau rhag codi, neu ddelio gyda nhw cyn iddyn nhw waethygu. Er enghraifft, gall cadw cofnodion trylwyr sy'n cael eu rhannu, atal colli gwybodaeth os bydd unigolyn sy'n delio gyda chais am gyllid yn wael.

Rhan o'r broses o sicrhau llwyddiant hirdymor yw trafod strategaeth achub a gytunir ymlaen llaw gyda'r awdurdod rhandiroedd. Gall cwmpas y strategaeth amrywio – unrhyw beth o gytundeb ar ran yr awdurdod rhandiroedd i dderbyn rhai dyletswyddau eto (megis casglu'r rhent) am gyfnod byr tra bydd problemau'n cael eu datrys, i ddirwyn y gymdeithas i ben yn gyfan gwbl, a dychwelyd yr holl ddyletswyddau i'r awdurdod rhandiroedd.

Os caiff y gymdeithas ei dirwyn i ben, hwyrach y bydd angen cyfnod rhybudd penodol ar yr ochr arall;

felly byddai'n ddoeth cadw hyn mewn cof, nid yn unig wrth drafod cytundeb ysgrifenedig, ond hefyd wrth gynnal cyfarfodydd a gwirio eich capasiti.

Trwy gynllunio'n drwyadl, gyda phrydles a drafodir yn ofalus, a chyfarfodydd rheolaidd, ychydig iawn o gymdeithasau fydd yn cyrraedd y pwynt o ddefnyddio strategaeth achub; ond mae'n ddefnyddiol cael cymal yn y brydles rhag ofn y bydd rhywbeth yn digwydd sy'n golygu bod eich holl waith caled yn mynd yn wastraff.

Adnoddau

Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol (FfaGC)

Ffon: 0117 9231800

Ebost: admin@farmgarden.org.uk

Wefan: www.farmgarden.org.uk

Elusen gofrestrdig sy'n cefnogi, yn cynrychioli ac yn hyrwyddo ffermydd, gerddi cymunedol, ffermydd gofal, rhandiroedd a mannau gwyrdd eraill a reolir gan y gymuned, er mwyn i gymunedau lleol dyfu. Cynllun yswiriant gyda disgownt i aelodau.

Y Gymdeithas Rhandiroedd (NAS)

Ffon: 01536 266576

Ebost: natsoc@nsalg.org.uk

Wefan: www.nsalg.org.uk

Corff cenedlaethol sy'n cynrychioli rhandiroedd yn y DU. Ymhlith aelodau mae cymdeithasau rhandiroedd, cymdeithasau a ffederasiynau, ysgolion, cynghorau, landlordiaid ac unigolion. Cynllun yswiriant gyda disgownt i aelodau.

Ymddiriedolaeth Gerddi Rhandiroedd Cenedlaethol (NAGT)

Wefan: www.nagtrust.co.uk

Yn darparu hyfforddiant i Aelodau Pwyllgorau Rhandiroedd ac i bobl sydd am gyfrannu at reoli rhandiroedd.

Cymdeithas Genedlaethol Gweithredu Gwirfoddol a Chymunedol (NAVCA)

Ffon: 0114 278 6636

Ebost: navca@navca.org.uk

Wefan: www.navca.org.uk

Cyngor a chefnogaeth ar gyfer grwpiau cymunedol.

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Wefan: www.wcva.cymru

Corff aelodaeth cenedlaethol ar gyfer sefydliadau gwirfoddol yng Nghymru.

Y Ganolfan Adnoddau

Wefan: www.resourcecentre.org.uk/information

Sy'n cynnig gwybodaeth syml a defnyddiol i helpu pobl rhedeg grwpiau cymunedol a gwirfoddol.

Mwy o ddarllen

Growing in the Community, a good practice guide for the management of allotments

Cyhoeddwyd gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol

www.local.gov.uk/growing-community-second-edition

A Place to Grow

Dogfen atodol ar Dyfu yn y gymuned.

www.local.gov.uk/place-grow-supplementary-document-growing-community

Cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru ar Rhandiroedd Traddodiadol a Phrosiectau Garddio Cymunedol, Mawrth 2016

https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-05/allotments-and-community-led-gardening-guidance.pdf

Voluntary but not Amateur: A guide to the law for voluntary organisations and community groups

Strwythurau cyfreithiol, rheolaeth ariannol ac ati.

Cyhoeddwyd gan The Directory of Social Change; 8fed Rhifyn (9 Maw. 2009)

RICS guide to Local authority disposal of land for less than best consideration in England and Wales

https://democracy.bathnes.gov.uk/documents/s34180/Appx



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Social Farms
& Gardens
Ffermydd a Gerddi
Cymdeithasol



Ffon: 02920 225 942/**Ebost:** wales@farmgarden.org.uk
Wefan: www.farmgarden.org.uk